**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced**

558/51

# ASTUDIAETHAU CREFYDDOL RS 8

## Astudiaethau yn y Testament Newydd

A.M. DYDD MERCHER, 21 Mehefin 2006

(1 awr 30 munud)

### DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.
Caniateir defnyddio Beibl, a all gynnwys yr Apocryffa.

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **ddau** gwestiwn.
Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd ar wahân.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 25 marc ar gael ar gyfer pob cwestiwn. Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Fe'ch atgoffir o'r angen am Gymraeg da ac am gyflwyniad clir yn eich atebion.

Dylid ateb pob cwestiwn mewn rhyddiaith ddi-dor. Asesir ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig ym mhob ateb.

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn.*

**1.** *(a)* Amlinellwch ddamcaniaeth y pedair ffynhonnell ar gyfer yr Efengylau Synoptig. [15]

*(b)* 'Nid yw damcaniaeth y pedair ffynhonnell yn ddamcaniaeth sy'n argyhoeddi.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]

**2.** *(a)* Eglurwch sut y datblygodd trefniadaeth y cymunedau Cristnogol cynnar yn ystod cyfnod y Testament Newydd. [15]

*(b)* 'Mae'r Testament Newydd yn meddwl am yr eglwys yn nhermau cymuned leol yn unig.'
Gwerthuswch y datganiad hwn. [10]

**3.** *(a)* Archwiliwch ddysgeidiaeth **un** efengyl ac **un** llythyr gan Paul am briodas ac ysgariad. [15]

*(b)* 'Nid yw dysgeidiaeth y Testament Newydd am briodas ac ysgariad yn berthnasol o gwbl i'n hoes ni.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]